

CrimeStoppers.
Gwanwyn 2023

# Connections

Rhoi'r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu

**AFLONYDDU RHYWIOL**

Yn ôl astudiaeth gan Crimestoppers, mae un o bob chwech yn dioddef aflonyddu rhywiol erbyn y byddant yn 10 oed

**TEIMLO'N DDIOGEL YN Y CARTREF**

Abri, darparwr tai, yn lansio partneriaeth newydd

**DAL FFOWYR**

Manteisio i'r eithaf ar "Most Wanted"

## Cynorthwyo Heddlu Llundain i ddarganfod llygredigaeth

Gwasanaeth penodedig newydd Crimestoppers ymhlith y camau cyntaf er mwyn adfer ymddiriedaeth

# Cynnwys

Croeso gan y Sylfaenydd a'r Cadeirydd ......................3

Cyflwyniad y Prif Weithredwr......................................4

Llinell Gymorth Atal Cam-drin a Llygredigaeth Heddlu Lludain ..........................................................5

## Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Arolwg VAWG Crimestoppers ................................ 6-7

Arweinydd VAWG NPCC, Maggie Blyth, yn myfyrio am y canfyddiadau syfrdanol ....................8

## Fearless

Gwefan newydd Fearless...........................................9

Gwobr ryngwladol ....................................................10

Brigâd y Bechgyn .....................................................11

Diwrnod ym mywyd Kieron Porter, gweithiwr Fearless o Gymru ............................................... 12-13

## Cadw cymunedau yn fwy diogel gyda'n gilydd

Twyll cludwyr ...........................................................14

Peoplesafe................................................................15

Abri ..........................................................................16

Simul8......................................................................17

Stay Energy Safe ......................................................18

## Rodger yn bwrw golwg yn ôl

Cyfarwyddwr Datblygu Busnes sy'n ymadael, Rodger Holden ..........................................................19

## Uchafbwyntiau ymgyrchoedd

5 "Most Wanted" pennaf .................................. 20-21

Mynd i'r afael â Llinellau Sirol...................................22

## Ffocws ar Crimewatch

Cyfweliad stwidio y Prif Swyddog Gweithredol, Mark Hallas..............................................................23

## Cymuned Crimestoppers

Ymweliad Ei Anrhydedd Christopher Critchlow â Phencadlys Crimestoppers.....................24

Cadeirydd Gwirfoddolwyr newydd i Gymru ...............25

Grym partneriaethau yn yr Alban...............................26

Teyrnged i Carolyn Randall........................................27

# Meithrin ymddiriedaeth, cynnig gobaith



Croeso i 5ed rhifyn Connections gan Crimestoppers.

Wrth i ni nodi dros 35 mlynedd ers y sefydlwyd yr elusen, mae'n cynnig pleser mawr i mi wybod pa mor eithriadol o lwyddiannus yw Crimestoppers erbyn hyn.

Mae cylchgrawn Connections yn amlygu rhai o'n prif bartneriaethau trwy lygaid y rhai yr ydym yn cydweithio'n agos â nhw. Rydw i'n eithriadol o falch o wybod bod cymaint o sefydliadau yn rhannu ein gwerthoedd ac yn dymuno cydweithredu gyda ni (er lles pawb).

Trwy gydweithio, rydym yn helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag adrodd am droseddau, ac mae ein haddewid i gadw pobl yn ddienw yn cynnig sylfaen i hyn.

Er mai ein partneriaid craidd yw'r heddlu a chymuned ehangach gorfodi'r gyfraith, rydym yn falch o gydweithio gyda chymaint o rai eraill, o gyrff yn y sector cyhoeddus megis GIG, i elusennau, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a chwmnïau preifat. Mae'r rhain yn cynnwys brandiau adnabyddus fel banciau'r stryd fawr a banciau ar-lein, archfarchnadoedd a manwerthwyr.

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd hanfodol gyda'r Swyddfa Gartref, llywodraethau a chynulliadau cenedlaethol, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) hefyd, sy'n cyfrannu at siapio ein blaenoriaethau. Mae eu mewnbwn nhw yn ein cadw yn berthnasol trwy ganolbwyntio ar y troseddau a'r mathau o droseddau pennaf a mwyaf niweidiol.

Mae'r offerynnau y gallwn eu defnyddio yn cynnwys cynnig gwobrau amlwg iawn, ynghyd â'n hapeliadau "Most Wanted". Mae cyfuno'r rhain gyda'n hymgyrchoedd – yn rhai lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a gyda'n partneriaid busnes – yn sicrhau ein bod yn rhoi hwb i'n proffil fel bod y rhai y bydd angen ein gwasanaeth arnynt yn gwybod ein bod yn bodoli.

## Bod yn ddienw yn cynnig tawelwch meddwl

Mae Crimestoppers yn sicrhau bod ffordd amgen i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fanteisio ar wybodaeth gymunedol na fanteisiwyd arni eto.

Efallai na fyddai'r wybodaeth hon fyth wedi cael ei datgelu. Rydym mewn sefyllfa unigryw i estyn allan a chysylltu gyda phobl a chymunedau nad ydynt yn fodlon neu nad ydynt yn gallu siarad â'r heddlu yn uniongyrchol.

## Cymorth ar gyfer partneriaid yr heddlu

Rydym yn gwybod bod plismona – sydd wastad yn dalcen caled – yn wynebu cyfnod sydd ymhlith ei gyfnodau mwyaf heriol. Ac yma hefyd, rydym yn gwneud ein rhan trwy redeg llinellau adrodd mewnol ac ar gyfer y cyhoedd er mwyn i heddluoedd gael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â cham-drin a chamymddwyn oddi mewn.

Rydym yn awyddus i gefnogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith wrth iddynt gymryd y camau angenrheidiol er mwyn adfer ymddiriedaeth a hyder.

Rydym oll yn dibynnu ar ein gilydd, felly rhaid i ni gyd gynorthwyo ein gilydd.

**Arglwydd Ashcroft KCMG PC, Sylfaenydd a Chadeirydd Crimestoppers**

# Cipolwg ar lwyddiant



**Yn Crimestoppers, rydym yn teimlo'n angerddol ac yn benderfynol o helpu i ddiogelu pobl a chymunedau, lleihau troseddu a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a'u teuluoedd.**

Rydym yn llwyddo i gyflawni hyn diolch i'r wybodaeth ddienw y byddwn yn ei chael ac yn ei throsglwyddo bob dydd.

## Ar eich ochr chi

Mae'n wir bod angen rhywun ar bawb mewn argyfwng.

Mae troseddu yn gallu peri i bobl deimlo'n ofidus ac yn ansicr am y ffordd orau o symud ymlaen. Yn wir, nid yw siarad gyda'r awdurdodau yn ddewis i un o bob pump unigolyn.

Efallai eu bod yn ofni'r canlyniadau neu'n teimlo, er eu bod yn dymuno gwneud rhywbeth, nad yw defnyddio'r sianelau 'arferol' yn ddewis. A dyna ble y gall Crimestoppers helpu.

Mae'r wybodaeth y byddwn yn llwyddo i'w chael o ganlyniad i ddewrder y rhai sy'n cysylltu â ni i raddau helaeth, ynghyd ag ymdrech ac ymrwymiad ein holl staff, yn enwedig yn ein Canolfan Gyswllt 24/7.

## Ehangder y gweithgarwch

Mawr obeithiaf y byddwch yn cael amser i bori trwy Connections gan ein bod yn cynnig cipolwg ar rywfaint o'n gwaith ar draws y cenhedloedd a'r rhanbarthau.

Mae pennaeth tîm atal llygredigaeth Heddlu Llundain yn cyfleu ei weledigaeth er mwyn mynd i'r afael â cham-drin o fewn Heddlu Llundain yn dilyn lansiad gwasanaeth a gaiff ei redeg gan Crimestoppers.

Mae llygredigaeth yn peri niwed i blismona – ac i enw da mwyafrif yr heddlu a'r staff dibynadwy a nobl – felly rydw i'n awyddus i'n helusen fod yn rhan o'r ymdrech i adfer ffydd yn y gwasanaeth.

Byddwn yn dysgu hefyd am adroddiad pwysig gan Brifysgol Suffolk, a gomisiynwyd gan Crimestoppers, sy'n dangos bod aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus yn cychwyn pan fo unigolion yn ofnadwy o ifanc. Mae arweinydd VAWG NPCC yn myfyrio am y canfyddiadau.

Mae gennym newyddion cadarnhaol am "Most Wanted", ein hymgyrchoedd niferus gan gynnwys gweithgarwch diweddar ynghylch Llinellau Sirol, a cheir adroddiad am ddatblygiadau o fewn Fearless: gwefan newydd, gwobr a enillwyd yn ddiweddar, gêm cerdyn gwahanol, a byddwn yn dilyn 'diwrnod ym mywyd' gweithiwr Fearless yng Nghymru.

Byddwn yn clywed ystyriaethau Uchel Siryf Surrey ar ôl iddo ddysgu mwy am Crimestoppers yn ystod ymweliad yn ddiweddar. A bydd ein diweddariad am wirfoddoli yn myfyrio am fywyd a chyfraniad rhyfeddol Carolyn Randall.

Yn olaf, bydd adroddiad am fy nhaith i stiwdios y BBC yng Nghaerdydd i ymddangos ar raglen adnabyddus Crimewatch Live y gorfforaeth.

Diolch unwaith eto am werthfawrogi llwyddiannau hanfodol Crimestoppers, ond y maent yn aml yn anhysbys – ein staff, ein gwirfoddolwyr a'r rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw.

Yn ystod cyfnodau anodd, mae gweithio mewn partneriaeth a rhannu sialensiau yn dwyn nifer o fanteision, nid ar gyfer y rhai dan sylw yn unig, ond ar gyfer y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, ac mae hyn yn hanfodol.

**Mark Hallas OBE,
Prif Weithredwr Crimestoppers**

# Llinell gymorth newydd Crimestoppers yn helpu Heddlu Llundain i ddarganfod llygredigaeth

Mae Comander Heddlu Llundain, James Harman, pennaeth yr Uned Reoli Atal Cam-drin a Llygredigaeth, yn ysgrifennu am y ffaith bod Heddlu Llundain yn benderfynol o fynd i'r afael â cham-drin ac adfer ymddiriedaeth y cyhoedd.



Comander James Harman

Mae'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau hyn yn niweidio mwyafrif helaeth yr heddweision a staff yr heddlu sy'n ymfalchïo yn y gwaith y maent yn ei wneud mewn ffordd mor broffesiynol, ac yn aml mewn ffordd mor ddewr, bob dydd – a'r rhai sy'n cychwyn pob sifft yn dymuno gwneud eu gorau glas ar gyfer y cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu.

## Plismona trwy gydsyniad

Yn y Deyrnas Unedig, dim ond gyda chydsyniad y cyhoedd y mae plismona yn llwyddo. Mae plismona trwy gydsyniad yn gysyniad heb ei ysgrifennu sydd wedi goroesi ers i batrolau cyntaf Heddlu Llundain fynd allan i'r strydoedd bron i 200 o flynyddoedd yn ôl.

Ond yn fwy diweddar, wrth i heddweision gael eu canfod yn euog o gyflawni'r troseddau mwyaf erchyll, mae wedi dod yn amlwg bod angen i Heddlu Llundain wneud cymaint yn fwy i fynd i'r afael â llygredigaeth a cham-drin yn ei rengoedd.

Fel pennaeth Uned Reoli Atal Cam-drin a Llygredigaeth newydd Heddlu Llundain, rydw i a'm holl gydweithwyr yn benderfynol o nodi, datgelu a chanlyn y rhai sy'n gweithio i ni ac sy'n cam-drin eu swydd mewn awdurdod – boed hynny yn gam-drin gyda chymhelliant ariannol, rhywiol neu wedi'i seilio ar gasineb a gwahaniaethu.

## Llinell gymorth annibynnol

Dyna pam ein bod ni, fel rhan o'n cynllun, wedi comisiynu elusen Crimestoppers i redeg Llinell Gymorth Atal Cam-drin a Llygredigaeth Heddlu Llundain. Mae Crimestoppers yn sefydliad yr ymddiriedir ynddo ar lefel genedlaethol, ac y mae ganddo ddegawdau o brofiad o gymryd gwybodaeth gymhleth gan y cyhoedd, gan sicrhau y gall pobl wneud hynny mewn ffordd ddienw.

Un o'r prif elfennau yw cynnig llais i'r cyhoedd er mwyn iddynt allu adrodd am weithredoedd ac ymddygiad heddweision neu staff sy'n camddefnyddio eu grym.

Fel sy'n wir ar gyfer nifer o linellau penodedig Crimestoppers, er mai'r addewid i gadw pobl yn ddienw yw'r prif addewid, gall pobl ddewis nodi eu manylion cyswllt personol, oherwydd efallai, er enghraifft, y byddant yn dymuno cael diweddariad neu efallai y byddant yn fodlon sgwrsio gyda'r tîm ymchwilio.

Mae honiadau ynghylch rhagfarn, trais a chamdriniaeth – ynghyd ag ymddygiad rheoli neu o gael cyswllt gyda throseddwyr – yn rhai o'r mathau o ymddygiad yr ydym yn gofyn i'r cyhoedd adrodd amdanynt.

Rydym wedi cael ymateb calonogol ers lansio'r linell gymorth (a'r cyfleuster ffurflen ar-lein ddiogel trwy wefan Crimestoppers) yn ystod yr hydref 2022.

Bydd fy nhîm yn asesu'r wybodaeth ac yn ei throsglwyddo i ddiectifs arbenigol er mwyn iddynt gychwyn ymchwiliad, cymryd camau i ddiogelu rhywun sydd mewn perygl, neu gofnodi'r hyn a ddywedir wrthynt er mwyn cyfrannu at ymchwiliadau yn y dyfodol.

Nid yn unig yr ydym yn rheoli honiadau o fewn Heddlu Llundain, ond mae nifer o gysylltiadau yn ymwneud â chamymddygiad mewn heddluoedd eraill – a byddwn yn trosglwyddo'r rhain i'r cydweithwyr perthnasol yn yr heddluoedd hynny. Mae hyn yn dynodi nad yw'r problemau o fewn Heddlu Llundain yn rhai a welir yn y llu hwnnw yn unig, ond yn broblem ehangach sy'n effeithio ar blismona, y mae angen i ni gyd gydweithio er mwyn mynd i'r afael â hi.

Dylwn nodi hefyd, yn ogystal â'r linell gymorth ar gyfer y cyhoedd, bod llinell fewnol sefydledig ar gyfer uniondeb yr heddlu – a gaiff ei rhedeg gan Crimestoppers – yn parhau i gynnig ffordd amgen i staff godi eu llais, o fewn Heddlu Llundain ac ar draws nifer o heddluoedd eraill. Mae'n gadarnhaol ein bod wedi gweld cynnydd arwyddocaol mewn gweithgarwch adrodd mewnol i'r linell honno.

## Adfer ymddiriedaeth

Yn ddiweddar, anogwyd y cyhoedd gan gomisiynydd Syr Mark Rowley i fod yn barod am "ragor o straeon poenus" wrth i ni fynd i'r afael â'r broblem hon.

Bydd y daith sydd o'n blaenau yn un hynod o anodd. Bydd mwy o benawdau sy'n peri pryder wrth i leiafrif o heddweision ddod i'r amlwg a wynebu'r system cyfiawnder troseddol yr oeddent wedi gobeithio y byddent yn ddiogel rhagddi.

Rhaid gweld bod camau cadarn a phendant yn cael eu cymryd yn erbyn heddweision a staff llwgr dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf – yn ogystal â gwelliannau systemig a diwylliannol mewn plismona – a thrwy wneud hynny, byddwn yn dangos i'r cyhoedd bod newid go iawn yn digwydd.

# Yn ôl astudiaeth gan Crimestoppers, mae un o bob chwech yn dioddef aflonyddu rhywiol erbyn y byddant yn 10 oed.

**Mae astudiaeth newydd fawr a gomisiynwyd gan Crimestoppers wedi bwrw goleuni ar agweddau cyffredinol tuag at aflonyddu rhywiol a'r oedran pan gaiff dioddefwyr eu targedu.**

O blith y rhai a ymatebodd, dywedodd tua **un o bob chwech** a atebodd bod eu profiad cyntaf o aflonyddu rhywiol mewn man cyhoeddus wedi digwydd pan oeddent yn **10 oed neu hyd yn oed yn iau.**

Roedd yr adroddiad gan Brifysgol Suffolk ac a gomisiynwyd gan Crimestoppers ym mis Gorffennaf 2022, yn dwyn ynghyd ymatebion 1,800 o bobl.

Mae'n dilyn effaith symudiad #MeToo yn erbyn cam-drin ac aflonyddu rhywiol.  Yn ogystal, lansiodd Crimestoppers ymgyrch genedlaethol ym mis Ionawr 2023 i herio agweddau ac annog pobl i adrodd am y rhai sy'n gyfrifol.







## Dyma'r prif ganfyddiadau:

### Roedd tua un o bob chwech cyfranogydd (16.8%)

wedi cael eu profiad cyntaf o hyn pan oeddent yn **10 oed neu'n iau** (3.7% yn 0-5 oed, 13.1% yn 6-10 oed)

### Roedd 30.9% o gyfranogwyr

wedi profi ymddygiad rhywiol digroeso am y tro cyntaf pan oeddent yn **14-16 oed**

### Roedd bron yr un ganran (29%)

wedi profi cyswllt digroeso am y tro cyntaf pan oeddent yn **11-13 oed**

**Mae'r canfyddiadau syfrdanol hyn yn dangos bod**

**y mwyafrif wedi profi aflonyddu rhywiol am y tro cyntaf yn ystod y glasoed neu blentyndod.**



"Credaf bod cyflawnwyr yn hollol anymwybodol o'r ffordd y mae eu gweithredoedd yn peri i'r unigolyn arall deimlo gryn dipyn o'r amser. Mae bod yn destun aflonyddu rhywiol yn peri i mi deimlo'n ofnus iawn am fy niogelwch, a byddaf yn ofni digio yr unigolyn rhag ofn y byddant yn ymddwyn yn dreisgar."

Cyfranogydd yn yr astudiaeth.

# Canfu arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Crimestoppers bod un o bob chwech wedi profi aflonyddu rhywiol digroeso mewn man cyhoeddus erbyn yr oeddent yn 10 oed. Mae arweinydd VAWG NPCC, Maggie Blyth, yn myfyrio am y canfyddiadau syfrdanol.



DCC Maggie Blyth yw Cydlynydd Trais yn erbyn Menywod a Merched Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu




**Ers i mi gychwyn yn fy rôl fel Cydlynydd Cenedlaethol VAWG ar gyfer y gwasanaeth plismona, rydw i wedi cyfarfod â channoedd o ddioddefwyr a goroeswyr, eiriolwyr a chefnogwyr, sydd wedi sôn wrthyf am eu profiadau.**

I gymaint ohonynt, mae eu bywydau wedi cael eu siapio a'u newid gan y trais a'r camdriniaeth y maent wedi'i ddioddef. Eu straeon nhw sy'n fy nghymell i fynd i'r afael â'r epidemig hwn o drais, sy'n arwain at y canlyniad trasig bod un fenyw yn cael ei lladd gan ddyn bob tri diwrnod yn y DU. Mae hyn yn ychwanegol i gam-drin domestig, sy'n cyfateb â 18% o'r holl droseddau cofnodedig yng Nghymru a Lloegr.

Yr unig ffordd y mae'r rhifau trasig hyn yn mynd i ddechrau gostwng yw os bydd cymdeithas yn dod ynghyd i feirniadu'r diwylliant sy'n caniatáu i'r math hwn o drais ffynnu.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad, a luniwyd gan Brifysgol Suffolk ac a gomisiynwyd gan Crimestoppers, yn dangos bod 30% o'r ymatebwyr wedi profi ymddygiad rhywiol digroeso am y tro cyntaf pan oeddent yn 14-16 oed. Roedd hyn yn sioc i mi, ond trist nodi nad oedd yn fy synnu.

## Aflonyddu rhywiol ar blant

Gall aflonyddu rhywiol, beth bynnag fo oedran y dioddefwr, arwain at bobl yn teimlo'n ofidus ac yn isel. Gall effeithio ar hunan-barch hefyd. Pan fydd hyn yn digwydd i blant ysgol, gall beri iddynt osgoi ardaloedd lle'r oedd y gamdriniaeth wedi digwydd. Gall hyn gael effaith arwyddocaol ar addysg pobl.

Mae nifer o heddluoedd ar draws y wlad yn cefnogi eu hysgolion lleol gyda phecynnau addysgol arbennig a gynlluniwyd i drafod perthnasoedd iach, cydsyniad a'r hyn sy'n cyfateb ag aflonyddu rhywiol. Mae gweithio gyda'n cydweithwyr ym maes addysg yn bwysig os ydym, fel cymdeithas, yn dymuno mynd i wraidd trais yn erbyn menywod a merched.

Rydym wedi ffurfio partneriaeth gyda Chymdeithas PSHE (personol, cymdeithasol, iechyd ac economaidd), ac rydym yn bwriadu cyflawni gwaith am ymddygiad rhywiol a'r gyfraith, gan werthuso'r rôl y gall yr heddlu ei chyflawni ym myd addysg, trwy gynorthwyo'r Cwricwlwm Personol, Cymdeithasol ac Iechyd.

## Lle diogel i bawb

Mae gan bawb yr hawl i fyw eu bywyd yn rhydd rhag ymddygiad rhywiol digroeso. Dyma pam ein bod yn cefnogi ymgyrch 'Digon' y Llywodraeth hefyd, sy'n ceisio helpu pobl i feirniadu sylwadau amhriodol a herio camdriniaeth lafar.

Dylai ysgolion fod yn lle diogel i bawb, felly mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar lais dioddefwyr a'n bod yn deall sut i atal niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

# Lansio gwefan newydd Fearless

**Mae Fearless wedi diweddaru ei wefan er mwyn cynnig rhagor o wybodaeth i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol am ei wasanaeth, ac mae'n cynnwys adran benodedig ar gyfer pobl ifanc er mwyn iddynt gael dysgu mwy am amrediad o bynciau ynghylch troseddu.**

Y newid amlycaf yw bod modd troi at wefan Fearless o dudalen hafan Crimestoppers yn uniongyrchol nawr, trwy glicio tab ar frig y dudalen honno, yn ogystal â thrwy droi at **www.fearless.org.**

Yr hyn sy'n newydd ar wefan Fearless:

- Adran 'Esbonio Mathau o Droseddau' newydd ar gyfer pobl ifanc, sy'n disodli ac sy'n datblygu'r rhestr A-Y troseddau ymhellach
- Tudalen ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid, sy'n cynnig gwybodaeth iddynt am Fearless a'r ffordd orau o siarad gyda phobl ifanc am y dewisiadau sydd ar gael iddynt er mwyn adrodd am drosedd
- Tudalen sy'n esbonio Dull Peidio Cadw'n Dawel a'r hyn y mae'n ei olygu pan fyddwch yn cadw'n dawel
- Adran newydd 'Esbonio Mathau o Droseddau' sydd wedi cael ei theilwra ar gyfer gweithwyr proffesiynol a rhieni/gofalwyr
- Tudalen Cwestiynau Cyffredin, a luniwyd trwy ymgynghori gyda'n Panel Ieuenctid.

Yr uchelgais yw y bydd ailwampio gwefan Fearless er mwyn sicrhau ei bod yn fwy integredig gyda crimestoppers-uk.org yn peri i'r gwasanaeth fod yn fwy hygyrch a chydnaws.



# Fearless yn ennill gwobr mewn digwyddiad CSI nodedig

## Mae Fearless wedi ennill gwobr yng nghynhadledd Ryngwladol Crimestoppers

Rhoddwyd y wobr i Fearless am 'Raglen Arbenigol – Ymgysylltu â Phobl Ifanc'.

Roedd tîm Fearless – a phob un ohonom yn Crimestoppers – yn teimlo'n gyffrous iawn am y newyddion hwn, gan bod gwahanol aelodau Rhyngwladol Crimestoppers ar draws y byd bellach yn gwybod am Fearless a phwysigrwydd gwaith sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc o fewn Crimestoppers.

Llongyfarchiadau i holl Weithwyr Allgymorth Fearless a diolch i chi am eich gwaith caled.




# Brigâd y Bechgyn yn creu gêm cardiau gyda diben difrifol

gan Joe Harrison, Arweinydd Rhaglen Brigâd y Bechgyn



Joe Harrison, Arweinydd Rhaglen Brigâd y Bechgyn

Mae Brigâd y Bechgyn yn sefydliad ieuenctid mewn lifrai sy'n ceisio ysbrydoli plant a phobl ifanc, a'u herio i fyw bywydau llawn. Credwn hefyd yng ngallu pobl i ysbrydoli a bod yn esiampl cadarnhaol i eraill.




O gofio'r gwerth hwn, gwelom gyfle gwych i bartneru gyda gwasanaeth ieuenctid Crimestoppers, sef Fearless, er mwyn datblygu cerdyn gweithgarwch 'Fearless a Throseddu' ar gyfer y grŵp oedran Hŷn (14-18 oed). Cynlluniwyd sesiynau neu weithdai lle y defnyddir y cerdyn er mwyn eu hannog i feddwl am gyfres o sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â throseddau sy'n effeithio ar bobl ifanc fel arfer ac i ystyried ymhellach yr hyn y bydden nhw yn ei wneud ym mhob sefyllfa efallai. Yn ogystal, mae'r cerdyn yn annog trafodaeth ynghylch y dewisiadau a wneir a'r canlyniadau. Ar ddiwedd y sesiwn, cyflwynir Fearless.org iddynt, gan esbonio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio a sut y gallan nhw helpu i gadw eu cymuned yn ddiogel.

Dywedodd Prif Weithredwr Brigâd y Bechgyn, Jonathan Eales: "Mae'n wych gweithio mewn partneriaeth gyda Fearless i greu adnodd newydd ar gyfer ein grŵp Hŷn. Nod y cerdyn gweithgarwch hwn yw codi ymwybyddiaeth o wasanaeth pwysig a ddatblygwyd trwy ymgynghori gyda phobl ifanc, a'r nod yw gwaredu unrhyw rwystrau y gallent atal pobl ifanc rhag adrodd am droseddau."

Gan ddatblygu'r bartneriaeth hon ymhellach, cyflwynodd Cydlynydd Prosiectau Ieuenctid Fearless, Lauren Geater, webinar a oedd yn ymgysylltu gydag Arweinwyr Brigâd y Bechgyn. Bu'r webinar yn gyfle i'r grŵp o arweinwyr ddysgu mwy am wasanaeth Fearless, yn ogystal â'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu pan fyddant yn codi eu llais am droseddu. Yn ogystal, cynigiwyd cyngor i'r Arweinwyr am y ffordd orau o ddarparu'r mathau hyn o sesiynau gyda phobl ifanc.

# Diwrnod ym mywyd gweithiwr Fearless - Kieron Porter, Gwent, Cymru

## 9:00am

Brecwast gyntaf wrth i mi fewngofnodi a throi at fy negeseuon e-bost.  Byddaf yn ymateb i unrhyw ymholiadau archebu, gan sicrhau bod fy holl apwyntiadau wedi'u cadarnhau am y dydd.  Cyn gadael, byddaf yn sicrhau bod fy nheithiau wedi'u trefnu er mwyn osgoi bod yn hwyr

## 10:00am

Gan amlaf, bydd mwy nag un gweithdy i'w redeg, felly mae gofyn teithio cryn dipyn i wahanol leoliadau yn ein gwaith.  Rydym yn cyflwyno i fathau amrywiol o grwpiau hefyd, o blant mor ifanc â deg oed, i weithwyr proffesiynol mewn lleoliadau gwaith.  Byddaf yn aml yn treulio amser yn addasu ein cyflwyniad i fodloni anghenion y grwpiau gwahanol yr ydym yn darparu ar eu cyfer.

## 11:00am

Dal i fyny gyda thîm Fearless Cymru am alwad Teams 30 munud i rannu syniadau a thrafod unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir cyn bo hir.



## 12:00

Mae hi'n bryd mynd allan i'm sesiwn gyntaf.  Mae ysgol leol yng Nghasnewydd yn cael problemau gyda phobl ifanc y dywedir eu bod yn dangos arwyddion eu bod yn ymwneud â gweithgarwch Llinellau Sirol.  Mae'n eithriadol o bwysig i ni ein bod yn mynychu ac yn sicrhau bod neges Fearless yn cael ei hyrwyddo, gan obeithio y bydd y bobl ifanc yn ystyried hyn.



fearless
Part of Crimestoppers





## 5:30pm

Ymlaen i'n sesiwn gyda'r hwyr yng Nghanolfan Ieuenctid Hengoed. Cyflwynais weithdy am droseddau casineb i grŵp bach o blant ifanc yr oedd ganddynt nifer o bryderon am iaith casineb a sut y gall hwn gael ei ddefnyddio fel ffordd o fwlio pobl ifanc. Siaradais â'r grŵp a soniais wrthynt am y gwahanol fathau o iaith casineb ymhlith troseddau casineb eraill, gan atgoffa'r bobl ifanc i gofio adrodd am droseddau mewn ffordd ddienw trwy wefan Fearless pe na baent yn dymuno siarad gyda rhywun yn uniongyrchol.

**fearless.org**



## 2:00pm

Ymlaen i ail weithdy y dydd yng Ngholeg Gwent i drafod risgiau, peryglon a chanlyniadau troseddau cyllyll. Roeddem wedi cael gwybod cyn y sesiwn bod sawl unigolyn ifanc yn yr ardal wedi clywed am neu wedi bod yn dyst i ddigwyddiad a oedd wedi cynnwys cyllell. Felly mae'n bwysig ein bod yn cael mynediad i'r ysgolion hyn, nid yn unig i atgoffa pobl ifanc o beryglon cario arfau, ond er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut y gallant adrodd am droseddau mewn ffordd ddienw trwy wefan Fearless.

## 4:00pm

Cyrraedd gartref i wneud newidiadau i'r cyflwyniad presennol, gan bod gennyf sesiwn mewn clwb ieuenctid – ond ar gyfer grŵp iau na'r sesiynau a gynhaliwyd heddiw. Byddaf yn treulio ychydig amser yn sicrhau bod y cyflwyniad hwn yn addas i'r oedran dan sylw, gan bod yr aelod o staff sydd wedi gofyn am y sesiwn wedi nodi y gallai'r grŵp deimlo ychydig yn ofidus am rywfaint o'n cynnwys mwy ergydiol.

# Diogelu pobl agored i niwed rhag twyll cludwyr



Lee Parish, Ditectif Brif Arolygydd, Heddlu Dinas Llundain

Bu Heddlu Dinas Llundain (CoLP) a Crimestoppers yn cydweithio ar fenter ar ddiwedd 2022 i godi ymwybyddiaeth o dwyll cludwyr ond hefyd, er mwyn ceisio cael gwybodaeth am gyflawnwyr hysbys neu ddrwgdybiedig.

Mae sgamwyr cludwyr yn targedu'r dioddefwyr mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gan ddynwared heddweision, staff bancio neu swyddogion eraill, maent yn canolbwyntio ar bobl hŷn yn bennaf er mwyn dwyn symiau mawr o arian, gemwaith neu unrhyw beth o werth ariannol.

Bu ymgyrch a gynhaliwyd gan Crimestoppers yn ddiweddar ac a gomisiynwyd gan CoLP yn cynorthwyo'r heddlu trwy wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r broblem, gan gynnig arwyddion i gadw golwg amdanynt, ynghyd â chyngor allweddol er mwyn ceisio atal y broblem.


Defnyddiodd yr ymgyrch ddeunydd deniadol i dargedu pobl ar gyfryngau cymdeithasol, ac ymgysylltwyd gyda rhanddeiliaid ar draws platfformau sefydledig, a chynhyrchwyd cyfres o ddeunyddiau argraffedig i'w dosbarthu.

Gyda chyswllt clir gydag Action Fraud, bu'r ymgyrch yn hyrwyddo diogelu ac yn atgyfeirio pobl i elusennau eraill sy'n cynnig cymorth i ddioddefwyr.

**Am ragor o wybodaeth, trowch at wefan Crimestoppers.**







**Dywedodd Naz Dossa, Prif Swyddog Gweithredol Peoplesafe a Chadeirydd Grŵp Gweithio ar eich Pen eich Hun BSIA:**

"Mae lefel y pryderon ynghylch diogelwch personol yn codi, wrth i bron i 7 miliwn o gyflogeion ofidio am eu diogelwch yn y gwaith neu wrth gymudo i'r gwaith bob wythnos.

"Mae gan dros 200,000 o bobl ein dyfeisiau diogelwch ac apiau symudol hawdd i'w defnyddio er mwyn eu helpu i gadw'n ddiogel 24/7, gan gynnig hyder a thawelwch meddwl iddynt ble bynnag y byddant a beth bynnag y byddant yn ei wneud.

"Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Crimestoppers a sefydliadau blaengar eraill er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o sut i wella diogelwch personol a'r dechnoleg sy'n gallu helpu."

# Mae Abri, un o'r darparwyr tai mwyaf yn ne Lloegr wedi lansio partneriaeth unigryw gyda Crimestoppers. Mae eu Pennaeth Partneriaethau Cwsmeriaid, Jim Bruckel, yn esbonio.



Jim Bruckel, Pennaeth Partneriaethau Cwsmeriaid yn Asbri

Er bod darparu tai fforddiadwy ac o ansawdd yn allweddol i ddiben Abri, mae ein cenhadaeth yn ymestyn ymhell y tu hwnt i hyn. Mae sicrhau bod ein cwsmeriaid yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau wrth wraidd yr hyn a wnawn. Gyda dros 40,000 o gartrefi a 100,000 o gwsmeriaid ar draws ein hardal ddaearyddol eang, nid yw hon yn dasg hawdd, ond mae'n rhywbeth yr ydym wastad wedi ymrwymo iddo.

## Amharodrwydd i adrodd

Mae ein timau Diogelwch Cymunedol penodedig yn cydweithio'n agos gyda'n cymunedau er mwyn mynd i'r afael â cham-drin domestig ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw hi'n anarferol i gwsmeriaid sôn wrthym am droseddau nad ydynt wedi cael eu hadrodd i'r heddlu. Rydym yn gwybod bod nifer o resymau pam na fydd rhywun yn adrodd am drosedd efallai. Yn aml, mae ofn y bydd eu manylion yn cael eu datgelu yn bryder mawr, yn enwedig yn ein cymunedau mwy clòs.

Dyna pam mai ni oedd y darparwr tai cyntaf i bartneru gyda Crimestoppers. Gan bod aros yn ddienw yn bwysig i'n cwsmeriaid, mae ein partneriaeth yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod modd adrodd am unrhyw drosedd mewn ffordd ddienw trwy Crimestoppers.

Ein nod yw meithrin hyder ar draws pob rhan o'r gymuned, i ddangos bod adrodd am broblemau wrth wraidd yr ymdrech i sicrhau bod ein cymdogaethau yn fannau mwy diogel a gwell i bawb fyw.


## Gwahanol gymunedau, gwahanol heriau

Mae dull gweithredu wedi'i ysgogi gan ymgyrch a dull gweithredu wedi'i dargedu wedi bod yn allweddol er mwyn cyrraedd ein cwsmeriaid. Nid oes unrhyw ddwy o'n cymunedau yr un fath, ac nid ydynt yn wynebu'r un sialensiau o ran troseddu. Trwy ddefnyddio dirnadaeth cydweithwyr rheng flaen ac ystyried lle y bu digwyddiad difrifol neu adroddiadau am fath penodol o drosedd, gallwn ganolbwyntio ymgyrchoedd penodol mewn ardaloedd lle y mae'n hysbys bod problemau. Er enghraifft, roedd ein hymgyrch gyntaf wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau cyffuriau, sy'n gallu cael effaith enfawr a pheri i gwsmeriaid deimlo'n agored i niwed ac yn anniogel yn eu cartrefi.

Rhoddom hwb i'r ymgyrch mewn ardaloedd lle y gwelwyd nifer uchel o droseddau cyffuriau. Yr uchelgais yw codi ymwybyddiaeth ac addysgu ein cwsmeriaid i adnabod arwyddion gweithgareddau sy'n ymwneud â chyffuriau a'r ffordd orau o adrodd amdanynt. Er mwyn lledaenu ein neges, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Crimestoppers i greu deunyddiau wedi'u cyd-frandio, y gallwn eu rhannu gyda'n cwsmeriaid. Yna, dosbarthir y rhain ymhlith ein cymunedau trwy ein cydweithwyr ar lawr gwlad a thrwy gyfrwng ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu.

## Llwyddiant cynnar

Rydym eisoes yn sylwi ar rai arwyddion cynnar o lwyddiant y bartneriaeth, ac rydym yn edrych ymlaen i weld beth fydd yn digwydd yn y dyfodol. Yn y pen draw, mawr obeithiwn y bydd ein gwaith gyda Crimestoppers yn grymuso pawb yn ein cymunedau – nid ein cwsmeriaid yn unig – i deimlo'n fwy diogel wrth adrodd am broblemau gyda throseddu sy'n effeithio ar eu bywydau.




# Gwaith modelu cyfrifiadurol yn cynorthwyo gyda sefyllfaoedd o ran adnoddau ar gyfer y Ganolfan Gyswllt

**Mae sicrhau bod gan Crimestoppers yr adnoddau cywir er mwyn bodloni'r galw gan y cyhoedd am wasanaeth ein Canolfan Gyswllt yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth cwsmeriaid da a sicrhau ein bod yn gofalu am ein staff.**

Rydym wedi manteisio ar berthynas pro-bono wych gyda The Operational Research Society a Simul8.

Gyda'i gilydd, mae eu sgiliau a'u pecyn meddalwedd hawdd i'w ddefnyddio wedi ein helpu i atgynhyrchu a modelu sut y gallai lefelau staffio yn y dyfodol effeithio ar ein gweithrediadau.

Er enghraifft, wrth lansio gwasanaeth newydd fel Llinell Gymorth Atal Cam-drin a Llygredigaeth Heddlu Llundain, roedd angen i ni archwilio gwahanol sefyllfaoedd o ran nifer uwch posibl y cysylltiadau a'r lefelau staffio yr oedd eu hangen o ganlyniad.

Mae'r math hwn o fodelu yn hynod werthfawr. Fel elusen, ni allwn gyflogi rhagor o bobl ar fyr rybudd pan fydd y galw yn cynyddu. Mae angen tystiolaeth, fel y dystiolaeth a gynigir gan Simul8, er mwyn cynorthwyo unrhyw gynlluniau yn y dyfodol o ran adnoddau. Yn ogystal, mae'n ein helpu i gael mwy o hyder wrth wneud newidiadau i leddfu'r pwysau ar ein staff a'u helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo.

Mae hyn oll yn hanfodol wrth ddelio â galwadau ffôn a phrosesu gwybodaeth ar-lein ar draws gwahanol wasanaethau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â sefyllfaoedd cymhleth ac emosiynol.

SIMUL8

**Gellir gweld mwy o wybodaeth am y bartneriaeth hon ar wefan Simul8.**

# Ymdrech o'r newydd i rybuddio am beryglon ymyrryd â mesuryddion yn ystod yr argyfwng costau byw



Aiyesha Andrade, Dadansoddwr Uwch yn RECCo

**Mae Crimestoppers yn cynnig platfform i'r cyhoedd adrodd am achosion o ddwyn ynni mewn ffordd ddienw trwy gyfrwng gwefan a llinell ffôn Stay Energy Safe. Yna, anfonir yr adroddiadau at gyflenwyr a gweithredwyr rhwydwaith er mwyn iddynt ymchwilio iddynt.**

Mae Retail Energy Code Company (RECCo) wedi bod yn gweithio gyda Crimestoppers ers bron i ddwy flynedd, ar ôl cymryd drosodd Energy Theft Tip Off Service (ETTOS) pan symudodd y cyfrifoldeb dros faterion yn ymwneud â Dwyn Ynni i RECCo yn barod er mwyn cyflwyno'r Cod Ynni Manwerthu (REC).

Mae dwyn ynni yn drosedd ddifrifol sy'n peryglu bywydau pobl ac sy'n costio biliynau o bunnoedd bob blwyddyn i'r diwydiant ynni a'r cyhoedd yn ehangach hefyd. Dyma pam bod platfform Stay Energy Safe a weithredir gan Crimestoppers yn hanfodol wrth helpu'r diwydiant ynni i godi ymwybyddiaeth a rhoi stop ar y gweithgarwch anghyfreithlon hwn.

Mae gwaith ETTOS a Stay Energy Safe ymhell o fod drosodd. Mae angen addysgu'r cyhoedd o hyd am beryglon lladrata ynni a sut i adnabod yr arwyddion. Dyma pam bod eu gwasanaethau yn ddewisiadau hanfodol i unrhyw un sy'n amau bod rhywun yn dwyn ynni yn eu hardal. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn ystod yr argyfwng costau byw, lle y gallai fod cynnydd yn nifer yr achosion o bobl yn ymyrryd â mesuryddion..




**Gallwch ddarganfod mwy trwy droi at stayenergysafe.co.uk**



RODGER YN BWRW GOLWG YN ÔL

# Un tro, nodwyd bod ein Cyfarwyddwr Datblygu Busnes sydd ar fin gadael, Rodger Holden, yn un o'r bobl fwyaf dylanwadol yn Llundain gan bapur newydd Evening Standard. Ar ôl iddo ddyblu incwm yr elusen dros y ddegawd ddiwethaf, mae Rodger yn myfyrio am ei gyfnod gyda Crimestoppers.


Rodger Holden

"Rydw i wedi gweithio i'r elusen ers dros ddeng mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, rydw i wedi ei gweld yn mynd o nerth i nerth. Rydw i'n fwy sicr nag erioed o rôl bwysig y sefydliad ym maes adrodd am droseddau, yn enwedig fel gwasanaeth ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

"Mae hwn yn gyfnod heriol ac mae cyllidebau yn dynn. Fodd bynnag, mae incwm Datblygu Busnes yn parhau i dyfu ym mhob maes: masnachol, statudol ac ymddiriedolaethau. Mae'r refeniw hwn yn helpu i gynorthwyo ein rheolwyr rhanbarthol a'n gweithwyr ieuenctid Fearless hefyd.

"Mae ein hymgyrchoedd cenedlaethol, y maent yn aml yn cynnwys clymblaid o bartneriaid o'r sector masnachol a chyhoeddus, elusennau ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith, yr un mor bwysig.

"Yn fy rôl fel Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, rydw i'n falch o'n cyflawniadau ar y cyd o fewn y tîm a gyda'n sefydliadau partner.

"Wrth i mi adael Crimestoppers er mwyn canlyn anturiaethau a sialensiau newydd, penodwyd Cyfarwyddwr Datblygu Busnes newydd, sef David Crawley.

"Hoffwn estyn fy nymuniadau gorau i David ac i bawb yn Crimestoppers."



## "Rydw i wedi credu mewn cynnig dewis amgen i bobl wrth adrodd am droseddu ers amser maith. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr i gychwyn fy nhaith gyda Crimestoppers."

David Crawley, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes newydd

# Manteisio i'r eithaf ar Most Wanted

**Lansiwyd ymgyrch Most Wanted Crimestoppers yn 2005 ac mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus, gan arwain at dros 4,900 o arestiadau hyd yn hyn. Mae'n cynnig y cyfle i'r cyhoedd helpu i nodi troseddwyr, a rhoi gwybodaeth am eu lleoliad os ydynt yn gwybod ble y maent yn cuddio.**

Ym mis Mawrth, amlygom bum unigolyn y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt mewn perthynas â throseddau difrifol, gan gynnwys llofruddiaeth, trais, ymosodiad rhywiol, delio cyffuriau ar raddfa fawr a gwyngalchu arian.

Cynigiwyd gwobr o hyd at £5,000 ar gyfer pob unigolyn, am wybodaeth y byddem yn ei chael ac a fyddai'n arwain at eu harestio.

## Chwarae ditectif

Dywedir yn aml bod y cyhoedd yn hoffi 'chwarae ditectif' a dyma pam bod y cyfryngau yn cyhoeddi manylion y rhai sy'n ffoi yn rheolaidd, yn enwedig ar lefel leol a rhanbarthol.

Gall defnyddwyr chwilio fesul rhanbarth yn y DU, fesul gair allweddol a fesul math o drosedd, yna gallant roi gwybodaeth sy'n helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i'w harestio.

Roedd ein hymgyrch Most Wanted ddiweddaraf wedi sôn wrth gynulleidfaoedd am berygl y rhai y gallent fod yn cuddio yn eu cymunedau.

## Sut mae Most Wanted yn gweithio ar gyfer heddluoedd?

Bydd yr heddlu ar draws y DU yn lanlwytho eu hunigolion Most Wanted i blatfform Most Wanted Crimestoppers yn uniongyrchol. Byddant yn dewis pwy fydd yn mynd arno a faint o wybodaeth i'w darparu. Byddant yn eu tynnu oddi ar y platfform hefyd ar ôl iddynt gael eu harestio.

Yn Crimestoppers, rydym yn awyddus i fwy o heddluoedd ddefnyddio Most Wanted mewn ffordd well, trwy lanlwytho manylion unigolion y maent yn chwilio amdanynt yn fwy rheolaidd, fel y gallwn gadw ein cymunedau yn ddiogel a'u tynnu oddi ar ein strydoedd.

**Trowch at Most Wanted i gael gwybod mwy.**



## Llwyddiant Most Wanted

Defnyddiodd Heddlu De Cymru ein platfform Most Wanted i gyhoeddi apêl am leoliad dyn a oedd dan amheuaeth o gyflawni cam-drin domestig treisgar. Roeddent wedi bod yn chwilio amdano am dros chwe mis. Naw niwrnod yn ddiweddarach, fe'i arestiwyd mewn rhan arall o'r wlad, ei gyhuddo a'i remandio.







Dywedodd Dean Taylor, Ditectif Uwch-arolygydd o Heddlu De Cymru:

"Mae wedi bod yn galonogol iawn gweld aelodau'r cyhoedd yn cysylltu gyda gwybodaeth hanfodol ac y mae modd gweithredu yn ei chylch, ac yn yr achos hwn, mae wedi arwain at arestio a chyhuddo troseddwr treisgar yr oeddem wedi bod yn chwilio amdano ers tro.

"Mae gweld yr enghraifft hon o gyrhaeddiad a llwyddiant Most Wanted Crimestoppers yn peri i mi ddymuno annog unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod rhywbeth am leoliad unrhyw un a restrir ar blatfform Most Wanted i sôn wrth yr elusen am yr hyn yr ydych yn ei wybod – gall eich gwybodaeth chi wneud gwir wahaniaeth.

"Byddwn hefyd yn argymell y gwasanaeth yn fawr i unrhyw heddlu nad ydynt yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd."

Mae'r holl wybodaeth a'r delweddau yn gywir adeg cyhoeddi hwn.

# Dull gweithredu ar draws canolbarth Lloegr o fynd i'r afael â gangiau cyffuriau Llinellau Sirol yn arwain at yr holl heddluoedd lleol yn uno gyda Crimestoppers mewn menter newydd. Yma, mae Christopher Stockton, Cydlynydd Llinellau Sirol Gorllewin Mersia yn myfyrio am y sialensiau.




Christopher Stockton – Cydlynydd Llinellau Sirol Heddlu Gorllewin Mersia

## "Rydw i newydd ddarganfod crac cocên yn ystafell wely fy mab, dim ond 14 oed ydyw!"

**Mae hon yn alwad go iawn a gafodd swyddog ateb galwadau yr heddlu, ac fel y gallwch ddychmygu, mae'n hunllef i unrhyw riant: cyffuriau.**

Mae diogelu pobl rhag niwed yn weledigaeth graidd yr heddlu, ac rydym yn gwybod bod galwadau fel hyn yn golygu bod teulu cyfan bellach mewn perygl efallai.

Ai arbrofi y mae'r bachgen yn ei arddegau? A yw'n rhywun sy'n cludo, yn delio neu'n cael eu targedu ac yn destun camfanteisio? A ydynt yn cadw'r cyffuriau ar gyfer ffrind, a ydynt mewn gang, neu a ydynt yn peri risg i eraill?

### Gwe o weithgarwch gang

I Heddlu Gorllewin Mersia, mae cadw cymunedau yn ddiogel ar draws ein tair sir sef Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Swydd Gaerwrangon, ac ymateb i her Llinellau Sirol mewn ffordd gadarn, yn hanfodol er mwyn atal rhieni fel hyn rhag gorfod wynebu realiti cyffuriau a'u peryglon.

Rydym yn cael ein heffeithio yn bennaf gan ddwy ardal fetropolitan sy'n 'allforio': gorllewin Canolbarth Lloegr, sy'n effeithio ar Telford a Wrekin a Swydd Gaerwrangon; a Glannau Mersi, sy'n cyflenwi i Swydd Amwythig a Swydd Henffordd.

Mae cyflenwi cyffuriau ar draws ffiniau yn parhau i fod yn fygythiad gyda thrais cysylltiedig, gan bod y gangiau hyn yn herio marchnadoedd cyffuriau taleithiol. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at fwy o alw o ran ymchwiliadau adweithiol, gweithrediadau a gynlluniwyd, mynd i'r afael â phobl agored i niwed a rheoli risg.

### Mae partneriaeth yn allweddol

Rydym yn canfod bod cynnwys Crimestoppers yn ein gweithgarwch cyfathrebu yn aml yn cynnig budd i'n gwaith – yn fwyaf diweddar, buom yn cyfathrebu am ymgyrch 'Most Wanted' o'r newydd ar draws yr heddlu. Yn ogystal, byddwn yn cyfeirio ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion at wybodaeth Crimestoppers yn ystod Wythnosau Dwysáu Cenedlaethol, yn ogystal â nodi manylion cyswllt Crimestoppers yn ein holl ddeunydd cyfathrebu allanol.

Yn Heddlu Gorllewin Mersia, credwn bod Crimestoppers yn elfen allweddol yn ein nod ar y cyd o leihau'r niwed y mae cyffuriau yn ei achosi yn ein cymunedau, a gyda'n gilydd, gallwn dargedu'r rhai sy'n gyfrifol am wneud y niwed mwyaf.




# Sylw yn y stiwdio i Crimestoppers ar brif raglen Crimewatch Live y BBC

Crimewatch Live BBC One yw prif raglen y gorfforaeth ynghylch troseddu o hyd, gan ail-greu achosion heb eu datrys a defnyddio lluniau CCTV a chyfweld ymchwilwyr perthnasol yr heddlu.

Mae Crimewatch yn bartner naturiol ar gyfer ein helusen. Yn ddiweddar, estynnwyd gwahoddiad i'n Prif Weithredwr, Mark Hallas, i fynychu cyfweliad byw yn stiwdio BBC Cymru yng Nghaerdydd i drafod ein gwaith, ein haddewid i gadw pobl yn ddienw a'r rheswm dros fodolaeth ein helusen.

Bu'n gyfle gwych i gyrraedd cynulleidfa ehangach – ac roedd y cyfweliad yn y stiwdio yn dilyn eitem drawiadol a recordiwyd yn gynharach yn 2022 pan wnaeth criw ymweld â'n Canolfan Gyswllt.

Mae Crimestoppers yn awyddus i feithrin ein perthynas gyda thîm Crimewatch wrth i'r gydnabyddiaeth ar gyfer gwaith ein helusen barhau i dyfu.




Mark Hallas, y Prif Swyddog Gweithredol, yn stiwdios y BBC yng Nghaerdydd ar raglen Crimewatch Live

# Mae Swydd Uchel Siryf yn benodiad Brenhinol, anwleidyddol, sy'n para blwyddyn. Mae Ei Anrhydedd Christopher Critchlow DL, Uchel Siryf Surrey ar gyfer 2022-23, yn rhannu ei fyfyrdodau ar ôl bod ar daith o gwmpas ein pencadlys yn ddiweddar.

Er 1988, gellid dadlau bod elusen genedlaethol Crimestoppers bellach yn cynnig y cymorth mwyaf i'r heddlu ac i rymoedd cyfraith a threfn yn y wlad.

Gall unrhyw un gysylltu â Crimestoppers ac adrodd am ymddygiad troseddol mewn ffordd hollol ddienw. Ni ofynnir fyth am fanylion personol y sawl sy'n galw. Y mantra yw "gall un galwad yn unig wneud gwahaniaeth mawr". Caiff adroddiad ei wneud gan yr asiant a fydd yn ateb yr alwad – neu sy'n adolygu ffurflen ar-lein – a chaiff hwn ei drosglwyddo i'r heddlu perthnasol neu'r asiantaeth briodol. Ceir dros 600,000 o gysylltiadau bob blwyddyn, dros 1,500 y dydd, a throsglwyddwyd dros 185,000 adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i'r heddlu yn ystod 2021/22 – nifer uwch nag a welwyd erioed o'r blaen. Mae miloedd o droseddwyr wedi cael eu dwyn o flaen eu gwell o ganlyniad.

## Ymweliad cyntaf

Ar 6 Chwefror, ymwelais i a'm gwraig â'r elusen, gan glywed manylion y gwaith a gyflawnir gan Crimestoppers ar lefel genedlaethol gan ei Brif Swyddog Gweithredol, Mark Hallas OBE a Lynne Hack, Cadeirydd Crimestoppers yn Surrey. Yn ogystal, treuliom amser yn siarad gydag arweinwyr y Ganolfan Gyswllt ynghylch sut y caiff yr asiantiaid eu hyfforddi i reoli galwadau yn y ffordd orau. Mae angen eu bod yn meddu ar y gallu i sicrhau ymddiriedaeth, gofyn cwestiynau perthnasol, a chofnodi'r hyn a ddywedir wrthynt mewn ffordd fanwl iawn. Mae galwad gyffredin yn para 3 munud ar y mwyaf. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod tua 85% o bobl bellach yn cysylltu â Crimestoppers ar-lein trwy lenwi ffurflen ar-lein ddiogel a dienw.

Mae Crimestoppers o'r farn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw. Mae eu gwasanaeth dros y ffôn ac ar-lein ar gael 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Ceir llinellau atal twyll ac atal llygredigaeth hefyd, a fydd yn cynorthwyo i ganfod unrhyw heddwas sy'n droseddwr. Mae tua 100 o staff a 300 o wirfoddolwyr ar draws y wlad yn gweithio i'r elusen. Mae nifer o wirfoddolwyr yn gyn heddweision. Mae'r costau tua £7m y flwyddyn. Ceir grantiau gan yr holl heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Swyddfa Gartref, yn ogystal â'r arian a godir mewn ffordd fasnachol ac yn lleol ar lefel pwyllgor.

Mae rhaglen Fearless yn rhan o Crimestoppers. Mae hon yn ffordd allweddol arall o helpu pobl y mae angen cyngor arnynt am faterion sy'n ymwneud â throseddu. Yn Surrey, ceir gweithiwr Fearless penodedig, sydd wedi siarad gyda dros 7,000 o bobl ifanc ar draws y wlad a chynnig hyfforddiant i dros 1,000 o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon. Ariannir y rôl gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Surrey.

## Delio â thrais yn erbyn menywod

Roedd gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed am yr adroddiadau cam-drin a thrais yn erbyn menywod. Yn 2021, trosglwyddodd Crimestoppers dros 8,500 o adroddiadau dienw ynghylch cam-drin domestig, a oedd 45% yn uwch na'r nifer a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r elusen yn hanfodol i rywun sy'n teimlo'n ofidus neu'n amharod i gysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol.



Ym mis Ionawr, cyhoeddodd yr elusen adroddiad am Drais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) er mwyn annog pobl i adrodd am y drosedd ddifrifol hon. Oherwydd yr angen i gadw pobl yn ddienw, dim ond gwybodaeth gan y rhai sydd wedi bod yn dyst i hyn neu'r rhai y mae ganddynt eu hamheuon (megis cymdogion, teulu neu ffrindiau) y gall Crimestoppers ei chymryd. Felly, caiff dioddefwyr cam-drin domestig sy'n cysylltu eu cyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol.

## Gwaith nodedig

Fel Uchel Siryf a chyn Farnwr Cylchdaith yn Llys y Goron, rydw i wedi bod yn ymwybodol o Crimestoppers ers sawl blynedd. Ond nid oeddwn yn ymwybodol o faint ei gweithrediad ar lefel genedlaethol nac o leoliad ei Phencadlys.

Mae'n gwneud gwaith nodedig ac yn cynorthwyo cymaint. Mae angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddi, fel bod mwy a mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o'i bodolaeth, yn enwedig yr ifanc. Mae'n gwneud gwaith hanfodol yn y frwydr yn erbyn troseddu, mae'n cael effaith arwyddocaol ac mae'n gwireddu ei henw.

# Cyflwyno Cadeirydd newydd ein pwyllgor gwirfoddolwyr yng Nghymru



Jon Drake, Cadeirydd Crimestoppers yng Nghymru.

Helo, Jon Drake ydw i, ac rydw i wedi cael y pleser o ddod yn Gadeirydd Crimestoppers yng Nghymru yn ddiweddar.

**Cyn ymddeol, bûm yn heddwas gyda Heddlu Swydd Stafford a Heddlu De Cymru am dros 31 o flynyddoedd. Yna, cefais fy mhenodi yn Gyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru.**

Trwy gydol fy ngyrfa, rydw i felly wedi cael perthynas waith agos gyda Crimestoppers ac rydw i wedi bod yn eiriolwr ac yn gefnogwr angerddol o'u gwaith. Roeddwn yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn i esbonio ychydig mwy am y rheswm pam.

## Gwerthfawrogi gwybodaeth gymunedol

Heb wybodaeth o ansawdd uchel a gaiff ei chyfleu gan ein cymunedau, ni all plismona – nac yn wir, y gwasanaeth cyhoeddus yn ehangach – gael gwir ddealltwriaeth o'r bygythiad, y risg a'r niwed y mae pobl yn ei wynebu. Mae meithrin y ddealltwriaeth hon fel gwneud jig-so, a heb wybodaeth gymunedol, mae nifer o'r darnau hyn ar goll.

Pan geir gwybodaeth gymunedol o ansawdd da, mae modd atal niwed. Fel Unedau Atal (neu Leihau) Trais eraill, comisiynodd uned Cymru wasanaethau fel y rhai sy'n dargyfeirio pobl ifanc i ffwrdd o drais difrifol a throseddu cyfundrefol.

Mae gwaith gwasanaeth ieuenctid Crimestoppers yng Nghymru, Fearless, yn esiampl o ddeall bygythiad troseddau cyllyll a thrais difrifol mewn ardaloedd, a chynnig mewnbynnau i bobl ifanc er mwyn helpu i atal y niwed hwn. Fodd bynnag, rydw i'n ymwybodol hefyd o achosion lle nad yw gwybodaeth gymunedol wedi cael ei rhannu – ac mae hyn wedi cyfrannu at ganlyniadau trasig.

## Rôl gydategol

Mae'n amlwg nad Crimestoppers yw'r unig lwybr lle y gall cymunedau gyflwyno gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'n hollol unigryw o ran y ffordd y mae'n caniatáu i bobl adrodd mewn ffordd ddienw, felly mae gan bobl nad ydynt yn dymuno cysylltu â'r heddlu efallai, y cyfle i godi eu llais am eu pryderon o hyd.

Yn ogystal, mae Crimestoppers yn cyd-fynd yn llwyr â gwaith cadarnhaol arall a wneir mewn ardaloedd, boed hynny trwy blismona ei hun, neu'r gwaith diogelwch cymunedol gwych a gaiff ei hyrwyddo gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Felly, bydd datblygu ein dull gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd mwy fyth o gymunedau mewn ffordd effeithiol yn flaenoriaeth allweddol i mi ac i Crimestoppers. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Crimestoppers yng Nghymru a hefyd, dysgu mwy am waith rhagorol yr elusen a'i phartneriaid ar draws y DU.

# Yr Alban – grym partneriaethau

Ar draws yr Alban, mae Crimestoppers a Fearless yn cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, gan gynnwys Heddlu yr Alban a Chreu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth yr Alban.

Mae cysylltiadau partneriaeth cadarn yn galluogi ein helusen yn yr Alban i weithio ar lefel leol i lefel genedlaethol, ac mae'n cysylltu gyda nifer o elusennau, gwasanaethau a chymunedau ar lawr gwlad, ac mae hyn yn hanfodol.

Gan weithio gydag Isadran Partneriaethau, Atal a Lles Cymunedol (PPCW) Heddlu yr Alban, gall yr elusen gynllunio a chydlynu ymgyrchoedd a gweithgareddau sy'n cyrraedd calon cymunedau y mae angen iddynt gael ein gwasanaeth fwyaf.

O Heddlu yr Alban a Llywodraeth yr Alban i grwpiau cymunedol bychain, mae gan bob un ran unigryw i'w chyflawni wrth sicrhau bod cymunedau yn ein hadnabod ac yn ymddiried ynom.

"Mae cymunedau yr Alban yn parhau i deimlo'n hyderus ynghylch denfyddio gwasanaeth Crimestoppers. Mae'r wybodaeth a ddarparir mewn ffordd ddienw yn helpu swyddogion Heddlu yr Alban i fynd i'r afael â throseddau sy'n effeithio ar ein dinasyddion.

"Rydym yn dymuno cydnabod y cymorth y mae Fearless yn ei roi i'n pobl ifanc hefyd, mewn ysgolion ac yn ein cymunedau, ac mae hyn, heb os, wedi helpu eu cydnerthedd dros y blynyddoedd anodd diwethaf."

**Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Gary Ritchie, Arweinydd Gweithredol dros PPCW**

"Mae'r effaith arwyddocaol a chlir y mae'r wybodaeth a ddarparwyd i Crimestoppers wedi ei chael ar fynd i'r afael â throseddu yn dangos y grym sydd gan bob un ohonom i helpu i gadw ein cymuendau yn ddiogel.

"Mae'n hynod o galonogol gweld cymaint o bobl ifanc – trwy Fearless – yn cyflawni eu rhan er mwyn helpu i fynd i'r afael â throseddu."

**Gweinidog dros Ddiogelwch Cymunedol, Elena Whitham**



# Talu teyrnged – Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Bu Carolyn Randall yn gweithio i Crimestoppers am dros 25 mlynedd. Bu'n eiriolwr pwysig dros ein gwirfoddolwyr, gan eu hannog a'u cynorthwyo, a chan sicrhau bod yr elusen gyfan yn gweld eu cyfraniadau unigol.

**Rydym wastad yn edrych ymlaen at y gwanwyn, cyfnod pan fyddwn yn myfyrio am ac yn dathlu cyflawniadau ein gwirfoddolwyr gwych dros y deuddeg mis diwethaf gyda'n Gwobrau Gwirfoddolwyr blynyddol.**

Roeddem yn drist iawn pan glywom am farwolaeth Carolyn Randall, a oedd yn aelod uchel iawn ei pharch o'n tîm o wirfoddolwyr.

Gan ymateb i'w blynyddoedd o ymroddiad, a gyda chaniatâd ei theulu, rydym wedi ailenwi ein Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn yn Wobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Carolyn Randall.

Mae angerdd, gofal, doethineb a chyfeillgarwch Carolyn wedi gwneud cryn argraff ar ein sefydliad. Rydym yn well oherwydd ei hymdrechion hi a bydd ei heffaith hi yn cael ei theimlo am sawl cenhedlaeth i ddod.

CrimeStoppers.
Volunteer Awards 2023




Beth mae bod yn ddienw yn ei olygu?
Ni fyddwn fyth yn gofyn am eich manylion personol, dim ond yr hyn yr ydych yn ei wybod am y drosedd.
Codwch eich llais a chadwch yn ddiogel gyda Crimestoppers.
Hollol ddienw. Bob tro.
CrimeStoppers.
0800 555 111
100% anonymous. Always.
crimestoppers-uk.org